

| | |
|--------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| DYDDIAD | 4 Medi 2020 |
| TEITL | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 |
| PWRPAS | Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20, a• Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad |
| GWEITHREDIAD | Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon |
| AWDUR | Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ar gyfer cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar gyllid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

2. CYFRIFON 2019/20

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2019/20 wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 2.3 Yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gymeradwyo a chyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol erbyn 15 Mehefin 2020. Er iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 27 Mai 2020, oherwydd argyfwng COVID-19, nid oedd yn bosib i'r corff gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 15 Mehefin 2020.
- 2.4 Bu'r cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid oedd unrhyw fater yn codi fel rhan o'r archwiliad.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef –**
 - Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20 – Atodiad A
 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2020 – Atodiad B